

Astudiaeth achos

Anabledd Dysgu Cymru

Mae Anabledd Dysgu Cymru a Chymunedau Digidol Cymru wedi dod at ei gilydd i greu cwrs newydd sy'n ei gwneud yn haws i bobl ag anableddau dysgu fynd – a chael hwyl – ar-lein.



Mae Anabledd Dysgu Cymru yn elusen genedlaethol sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu i fyw, dysgu a gweithio. Yn hytrach na darparu gwasanaethau rheng flaen neu uniongyrchol i'r rheiny ag anableddau dysgu, maent yn cefnogi sefydliadau eraill sy'n gwneud hynny, boed hynny'n hyrwyddo arfer da, yn dylanwadu ar bolisiau'r llywodraeth, neu'n darparu cyngor, gwybodaeth a chysiau hyfforddi.

Mae Anabledd Dysgu Cymru hefyd yn ymgymryd ag amrywiaeth o brosiectau gyda sefydliadau o'r un meddylfryd. Un enghraifft yw cydlynu prosiect cyflogaeth ar raddfa fawr i Gymru gyfan, sy'n cefnogi cyflogwyr i ddarparu lleoliadau â thâl i bobl awtistig a phobl ag anableddau dysgu. Un arall yw cynllun cyfeillio sy'n dod â phobl sydd â diddordebau cyffredin at ei gilydd, gan gefnogi'r rheiny ag anableddau dysgu i ffurfio perthnasoedd newydd. Maent hefyd yn darparu gwasanaeth gwybodaeth hygyrch, sy'n trawsnewid gwybodaeth yn ddogfennau sy'n haws i bobl ag anableddau dysgu eu darllen.

Esboniodd Simon Rose, Rheolwr Hyfforddiant a Digwyddiadau gydag Anabledd Dysgu Cymru:

“

Mae busnesau a sefydliadau yn rhoi dogfen i ni, ac yna rydym yn ei thrawsnewid yn fformat hawdd ei ddarllen sy'n gwneud y wybodaeth yn gliriach i bobl ag anableddau dysgu ei darllen a'i deall.

”

Mae Anabledd Dysgu Cymru wedi bod yn gweithio gyda Chymunedau Digidol Cymru i greu cwrs newydd sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu i gyfathrebu ar-lein. Mae'r cwrs newydd hwn yn dod ag arbenigedd Anabledd Dysgu Cymru o ran gwybodaeth ac eiriolaeth hygyrch, a gwaith Cyngor Celfyddydau Cymru i helpu cymunedau lleol i fynd ar-lein, ynghyd.

Dyweddod Simon:



Roedd yn gyfuniad o'r gorau o'u set sgiliau – cefnogi pobl i ddefnyddio technolegau digidol – a'n set sgiliau o gyfathrebu'n dda gyda phobl ag anabledd dysgu.

Nid yw'r rhaglen wedi'i hanelu'n uniongyrchol at bobl ag anableddau dysgu, ond y bobl sy'n eu cefnogi – aelodau o'r teulu, gofalwyr, gweithwyr allweddol ac ati – fel y gallant helpu'r bobl y maent yn eu cefnogi i fynd ar-lein.



Roedd y prosiect wedi bod yn cael ei ystyried ers tro, ond pan darodd pandemig COVID-19, daeth yr angen i fynd ar-lein yn fwy hanfodol nag erioed.



Daeth yn amlwg ar unwaith fod COVID-19 yn gwneud pawb yn fwy ynysig, ond yn enwedig y rheiny ag anableddau dysgu. Roedd y grŵp hwn eisoes wedi'i eithrio'n ddigidol – mae rhwystrau wedi bod erioed i gael pobl ag anabledd dysgu ar-lein – ond fe wnaeth y pandemig ddwysáu'r anghydraddoldebau hyn.

Bu'n rhaid i ni a Chymunedau Digidol Cymru weithredu'n gyflym i roi'r cwrs hwn ar waith, gan ddefnyddio ein harbenigedd cyfunol, ac mae'r canlyniad wedi bod yn unigryw iawn. Meddylion yn ddwys galed ynghylch sut gallem sicrhau y gallai pobl ag anableddau dysgu gadw mewn cysylltiad â'u ffrindiau a'u teulu, yn ogystal â gofal a chymorth, ac roedd lleisiau a barn pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr yn allweddol i'r ffordd yr aethom i'r afael â materion. Mae'n ymddangos ei fod wedi bod o fudd mawr i bobl yn ystod y pandemig ac rydym wedi cael adborth gwych.



Un rhwystr cyffredin y mae pobl ag anableddau dysgu yn ei wynebu wrth gyrchu'r rhyngwyd yw gor-amddiffyn gan rieni a gofalwyr sy'n llawn bwriadau da, sy'n poeni am eu hanwyliaid yn cael eu hecsbloetio ar-lein. Mae'r cwrs newydd hwn yn cynnwys awgrymiadau a thriciau ar gyfer cadw'n ddiogel ar-lein er mwyn rhoi tawelwch meddwl i rieni a gofalwyr, ond maent yn gobeithio datblygu hyn ymhellach. Mater arall yw nad yw'r ffordd y mae technoleg wedi'i chynllunio bob amser yn reddfol i bobl ag anabledd dysgu, ac mae'r rhaglen yn cynnwys sut i gefnogi rhywun i ddefnyddio technoleg eu hunain. Gallai hyn gynnwys gwirio pa iaith rydych chi'n ei defnyddio, peidio â chymryd yn ganiataol bod rhywun eisoes yn gwybod sut mae darn o dechnoleg yn gweithio, i wneud y broses ddysgu mor bleserus â phosibl. Y mater nesaf y mae Anabledd Dysgu Cymru a Chymunedau Digidol Cymru yn gobeithio mynd i'r afael ag ef yw tlodi a methu fforddio technoleg, a sut mae'n ei gwneud yn anoddach i bobl ag anableddau dysgu fynd ar-lein.

Aeth Simon ymlaen i ddweud:



Nid ydym yn mynd i roi'r gorau i ddatblygu'r cwrs hwn, oherwydd roedd y problemau hyn yno bob amser – mae COVID-19 wedi amlygu'r problemau hyn – ac mae mwy o waith i'w wneud o hyd.

Mae'n ymwneud â chysylltiad dynol. Yn ystod y pandemig, roedd pobl ag anableddau dysgu yn fwy ynysig nag erioed. Drwy gael mwy o bobl ag anableddau dysgu ar-lein, rydym yn atal unigrwydd, ond hefyd yn caniatáu iddynt gael hwyl. Byddwn yn annog sefydliadau i feddwl am sut y byddent yn teimlo pe bai'n rhaid iddynt neidio drwy gylchoedd i gyfathrebu ar-lein, ac mae'r cwrs hwn yn ein helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.



Tri phrif awgrym gan Anabledd Dysgu Cymru:

1. Mae lleisiau'r bobl rydych yn eu gwasanaethu yn bwysig
2. Peidiwch byth â thanbriso pwysigrwydd cysylltiad dynol
3. Weithiau, mae cael hwyl yn ddigon o reswm dros wneud rhywbeth!



Ymunwch â'n cynllun peilot am ddim i hyfforddi pobl ar sgiliau digidol. I gymryd rhan, ewch i:

